

Ond a wrandawant hwy?

“Bydded hysbys i chwi, felly, fod yr iachawdwriaeth hon, sydd oddi wrth Dduw, wedi ei hanfon at y Cenhedloedd ac fe wrandawant hwy.” (adn. 28)

Beth am ddarllen Actau 28:17–31 ac yna myfyrio

A fydd dynion a gwragedd yn yr unfed ganrif ar hugain yn gwrando ar ein hapêl ar iddynt ildio eu bywyd i'r Arglwydd Iesu Grist? Credaf y byddant os byddwn yn cyhoeddi'r Efengyl yn iawn. Geiriau olaf yr apostol Paul yn Llyfr yr Actau yw geiriau ein testun heddiw: “Fe wrandawant hwy.” O roi'r geiriau yma yn eu cyddestun, mae Paul yn dweud wrth yr arweinwyr Iddewig, os bydd yr Iddewon yn gwrthod gwrando ar yr Efengyl, yna mi fydd y Cenhedloedd yn gwrando. Mae'r dyn yma yn y ddalfa, dyn wedi ei wawdio ac wedi ei feirniadu, ond mae'n cyhoeddi, gyda hyder, frawddeg sydd angen i ni ei meddiannu wrth i ni wynebu her ein cenhedlaeth.

A ddaeth geiriau Paul yn wir? Mae'r Cenhedloedd wedi gwrando ar neges Iesu. Nid yn unig mae enw Iesu wedi ei ysgrifennu ar hanes gwareiddiad, mae wedi ei aredig i mewn i hanes gwareiddiad. Ysgrifennwyd mwy o lyfrau amdano ef nag unrhyw berson arall mewn hanes. A fydd pobl yn ysgrifennu amdano yn yr unfed ganrif ar hugain? Dyma ein consŷm ni. Yn bersonol, y mae gennyf hyder y bydd y genhedlaeth nesaf yn gwrando ar yr Efengyl, oherwydd mae ein hoes ni yn fwy na phob oes arall yn dioddef o ddiffyg ystyr, ac mae'r gwagle yma yn dyfnhau.

Y gwir yw na all y galon ddynol ddim byw gyda'r gwagle hwn. Nid yw technoleg yn ei lenwi, nid yw addysg yn ei lenwi, nid yw athroniaeth yn ei lenwi. Mae'r galon yn dyheu am berthynas gyda Duw, ac mae annigonolrwydd pethau yn parhau i lethu'r galon. Yr un modd, mae hyn yn rhoi cyfleon bendigedig i'n gwaith ni o efengylu. Os bydd i ni gerdded ymlaen yn weddigar ac yn ofalus, os byddwn yn parhau i gyhoeddi y neges fod ystyr i'w ddarganfod yn Iesu ac ynddo ef yn unig, fe dybiaf, fel y dywedodd yr apostol Paul am genedl-ddynion ei ddydd, fe wrandawant.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Preg. 1:12–2:26; 12:13; Eiseia 55:1–3; Col. 2:9–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i Solomon ddarganfod bodlonrwydd?
2. Ble gellir darganfod gwir fodlonrwydd?

Gweddi

O Dad, cynorthwya ni i fod yn ofalus rhag syrthio yn awr fawr yr Eglwys. Dyro hyder i ni wrth gyflwyno'r Efengyl. Dyro ffydd i ni, dyro ras i ni weld dynion a gwragedd fel rhai yr wyt ti am gyffwrdd â hwy, gan ateb eu hangen pennaf trwy Iesu Grist. Yn ei enw ef, yr ydym yn gofyn y cyfan. Amen.